

## Cam-drin Domestig

Beth yw Cam-drin Domestig - cam-drin corfforol, emosynol, seicolegol, rhywiol neu ariannol, boed yn cam-drin gwirioneddol neu fygythiad o gam-drin, gan bartner, aelod o'r teulu, neu unigolyn y mae gennych/rydych wedi cael cysylltiad agos gydag ef/hi.

Gall cam-drin domestig ddigwydd i unrhyw un, unrhyw le, ar unrhyw adeg.



Ydych chi neu ydy rhywun rydych yn ei adnabod yn cael dyddiau fel hyn?

Gall CATM helpu  
**01686 629114**

Bydd Canolfan Argyfwng Teulu Maldwyn yn gwneud ei orau i'ch cefnogi a'ch helpu, nid yn unig i ddod trwy eich profiadau, ond i ffynnu.

Gwneir hyn drwy feithrin hyder a'ch annog i fod yn annibynnol, a thrwy hynny eich galluogi i symud ymlaen a datblygu cysylltiadau personol iach, parchus yn y dyfodol.



Tŷ Canol House, Ffordd Croesawdy  
Y Drenewydd, Powys, SY16 1AL

**01686 629114**

[www.familycrisis.co.uk](http://www.familycrisis.co.uk)

[admin@familycrisis.co.uk](mailto:admin@familycrisis.co.uk)



Rhif Elusen Gofrestredig: 112411

Rhif Cwmni cyfyngedig trwy warant: 6553792 -  
cofrestrwyd yng Nghymru



Live Fear  
Free Helpline

Providing confidential support  
and information on domestic  
abuse, sexual violence and  
violence against women in Wales

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth  
cyfrinachol ynghylch trais domestig,  
trais rhywiol a thrais yn erbyn merchod  
yng Nghymru

**0808 80 10 800**



# CATM



## Gwasanaethau Cam-drin Domestig Gogledd Powys

Cysylltwch â ni heddiw - gallwn helpu

**01686 629114**

[www.familycrisis.co.uk](http://www.familycrisis.co.uk)

[admin@familycrisis.co.uk](mailto:admin@familycrisis.co.uk)



## Llety Diogel mewn Argyfwng

Lloches i fenywod a phlant



Bydd 1 o bob 4 menyw yn dioddef o gam-drin domestig rhywbryd yn ystod ei bywyd.

Lloches gyfrinachol dros dro lle ceir cymorth, cyngor a chyfle i ystyried eich dyfodol.

Tŷ Davis – ar gyfer dynion a phlant



Bydd 1 o bob 6 dyn yn dioddef o gam-drin domestig

## Cymorth yn y Gymuned

Mae'r tîm cymorth yn y gymuned yn cynnig cymorth arbenigol ym maes Cam-drin Domestig ar hyd a lled Sir Drefaldwyn.

Cam-drin domestig sy'n gyfrifol yn rheolaidd am rhwng 16-25% o'r achosion o drais a gofnodir ym Mhowys



Bydd CATM yn eich cefnogi trwy raglen arbenigol ym maes Cam-drin Domestig, ac yn rhoi cyngor ar sut i gadw chi'ch hunan a'ch plant yn ddiogel.

Yn ystod 2014-15, cofrestrwyd cyfanswm o 829 o achosion o drais domestig gyda'r heddlu ym Mhowys; roedd dros hanner y rhain yn Sir Drefaldwyn.

## Tîm Cymorth i Blant a Phobl Ifanc

Clwb Diogelwch Ymddiried a Pharch (S.T.A.R.)

Amgylchfyd hwyl a hamddenol, ond diogel a chyfrinachol yw'r Clwb S.T.A.R. lle mae plant a phobl ifanc yn cael cyfle i ystyried eu teimladau mewn perthynas â cham-drin domestig.



SAFETY, TRUST AND RESPECT  
DIOGELWCH, YMDDIRIED A PHARCH

Mae 75% o'r plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn byw mewn cartref lle mae cam-drin domestig yn digwydd

Sesiynau Chwarae a Chymorth un-i-un

Gall treulio amser mewn lloches fod yn brofiad dychrynlyd a dryslyd i rai plant, ond mae staff CATM yn ceisio sicrhau fod eu profiad, mor bell ag sy'n bosib, yn un cadarnhaol ac yn hwyl.



Mae 90% o blant naill ai yn bresennol neu mewn ystafell gyfagos pan fydd achos o gam-drin yn digwydd; maent yn sicr yn ei glywed, hyd yn oes os na welwyd y cam-drin.